CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
17 Mehefin 2025, Trwy Zoom am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Williams, A Williams, S Jones, R Hughes, D ap Rhobert, M Jones, E Williams, C McGregor, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Wyn	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng R Hughes. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng C McGregor eitem 4.5, Cyng R Hughes eitem 4.5
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 20.05.25. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng S Jones yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**B5110 40myh** - Mae'r Cyngor Sir yn aros am ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ar ardaloedd 30/40mya.
4.2	**Croesffordd Maenaddwyn** - Mae'r drychau wedi'u gwneud
4.3	**Sgwar Talwrn (damweiniau)** – mewn llaw
4.4	**Coeden Mynwent Llanfihangel Tre'r Beirdd** – mewn llaw
4.5	**8 Maes y Coed, Talwrn -** Mae'r Clerc yn dal i aros i glywed mwy gan y Cyngor Sir. Gofynnwyd iddo hefyd wneud cais Rhyddid Gwybodaeth i ofyn a ystyriwyd y cyfamod wrth brynu'r eiddo.
4.6	**Bryn Brochan –** cytunwyd i dynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda.
4.7	**Golau fflachio** - Mae'r Clerc wedi derbyn transformer newydd (am ddim) gan y cyflenwr goleuadau fflachio. Mae wedi'i roi i'r Cyngor Sir sydd wedi cytuno i'w roi yn ei le.
4.8	**Ildio Talwrn** – mewn llaw
4.9	**Gor-yrru Talwrn (Halfway)** – mewn llaw
4.10	**Rwbel gyferbyn a'r Hen Siop -** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r rwbel sydd o hyd gyferbyn â'r hen siop.
4.11	**Galw am safleoedd** - Mae'r Cyngor Sir yn gofyn am unrhyw safleoedd posibl ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Nid oes gan y cyngor unrhyw safleoedd i'w cynnig ond mae'n bryderus bod Talwrn wedi cyrraedd ei gapasiti o ran carthffosiaeth.
4.12	**Drych Lon Cae Cwta** - Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir.
	Llofnod……Cadeirydd
	15.07.25

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	**Cau Ffordd dros dro – Lon Goch, Talwrn** – gwybodaeth yn unig
5.2	**Gorchymyn Terfyn Cyflymder 30mya** - Deellir bod y Cyngor Sir yn edrych i gynyddu'r cyfyngiad cyflymder ar y ffordd sy'n arwain at yr hen ysgol gynradd yn Nhalwrn i 30mya. Gofynnwyd i'r Clerc wrthwynebu gan ddweud: Nid yw'r aelodau'n cytuno â chynyddu'r terfyn cyflymder i 30mya. Mae hyn oherwydd diogelwch defnyddwyr ffyrdd. Maent yn teimlo y bydd diogelwch cerddwyr (gyda chŵn a heb gŵn) a beicwyr yn cael ei beryglu os cynyddir y terfyn cyflymder. Defnyddir y ffordd hon yn rheolaidd gan drigolion lleol. Mae troadau yn y ffordd yn creu gweledegd gwael a all arwain at berygl i ddefnyddwyr. Cefnogir y gwrthwynebiad hwn gan y cynghorydd ardal, y Cynghorydd Dylan Rees.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**Cwblhau archwiliad 2022-2023** - Derbyniodd yr aelodau adroddiad yr archwilydd allanol
6.2	**Archwiliad mewnol 2024-2025** - Derbyniodd yr aelodau adroddiad yr archwilydd mewnol
7	**MATERION ERAILL**
7.1	**Gwrych rhwng yr Hen Siop**, Siop Isaf a mynediad I Annedd Wen - Mae'r Clerc wedi cyfeirio hyn at y Cyngor Sir ac maen nhw'n ymchwilio.
7.2	**Lwfans Blynyddol yr Aelodau** – Atgoffodd y Clerc yr aelodau bod y lwfans blynyddol ar gael iddynt ac y gellir gwneud y taliad ychwanegol pe bai unrhyw enwebiadau yn cael eu gwneud. Gofynnwyd i'r aelodau lenwi'r ffurflen a dderbyniwyd ganddynt drwy e-bost i ddatgan a ydynt yn dymuno hawlio'r lwfans ai peidio. Pwysleisiodd y Clerc hefyd bwysigrwydd dychwelyd y ffurflenni oherwydd bod archwilwyr fel arfer yn gofyn i weld ymatebion yr aelodau.
7.2	**Torri gwair maes Chwarae** – mae hyn wedi cael ei wneud
8	**MATERION ARIANNOL**
	Dim
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Porth newydd wedi agor yn Llanddyfnan
9.2	Torri gwair Lon Ceint
	Llofnod…….Cadeirydd 15.07.25